DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 12 HYDREF 2023 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 12 OCTOBER 2023, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir Council Chamber, COUNTY HALL, Atlantic Wharf, Cardiff, Cf10 4UW on Dydd Iau, 12 Hydref 2023 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 6 Hydref 2023

---

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £ ** mewn costau argraffu

**GWE-DARLLEDU**

**Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.**

**Gall aelodau'r wasg a'r cyhoedd hefyd ffilmio neu recordio'r cyfarfod hwn**

**Os ydych yn ymddangos gerbron y pwyllgor ystyrir eich bod wedi cydsynio i gael eich ffilmio. Trwy fynd i mewn i gorff y Siambr neu'r ystafell gyfarfod rydych hefyd yn cydsynio i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl o'r delweddau a'r recordiadau sain hynny ar gyfer gwe-ddarlledu, gwybodaeth gyhoeddus, sylw i'r wasg a/neu ddibenion hyfforddi.**

**Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Democrataidd ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd**

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4:30pm | |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau)* | | |
| **3** | **Hysbysiad o Gynnig**<br><br>Ystyried yr Hysbysiad o Gynnig canlynol sydd wedi ei gyflwyno yn unol â Rheol Gweithdrefn Cyfarfod y Cyngor 4 (b)(iv) ar 29 Medi 2023.<br><br>***Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Joel Williams***<br><br>***Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Callum Davies***<br><br>Y Cynghorwyr: Brown-Reckless, Cowan, Davies, Driscoll, Lancaster, Littlechild, Melbourne, Reid-Jones, Robson<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn nodi:<br><br>1. Yn ddiweddar, cyflwynodd Llywodraeth Lafur Cymru Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022, gan leihau'r terfyn cyflymder diofyn yng Nghymru o 30 mya i 20 mya.<br><br>2. Roedd gan ddeiseb sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gael gwared ar y terfyn cyflymder cyffredinol 20mya o ddydd Gwener 29 2023 dros 447,000 o lofnodion. Mae cyfanswm y llofnodion yn rhagori ar nifer y pleidleisiau etholaethol a gafodd Llafur Cymru ledled Cymru yn Etholiadau'r Senedd yn ddiweddar yn 2021.<br><br>3. Y gost uniongyrchol i economi Cymru o derfynau cyflymder diofyn 20 mya fydd £4.5 biliwn dros gyfnod o 30 mlynedd. Cyfaddefodd Llywodraeth Cymru y gallai hyn gyrraedd £8.9 biliwn. | 4:30pm | 30 mins |

4. Mae gan Gyngor Caerdydd, fel Awdurdod Priffyrdd Lleol, y pwerau cyfreithiol i eithrio ffyrdd yn y ddinas rhag lleihau i'r terfyn cyflymder diofyn i 20 mya. Mae'r Cyngor ond wedi defnyddio'r pŵer hwn i eithrio nifer fach o ffyrdd yn y Ddinas rhag lleihau cyflymder i 20 mya.

5. Mae'r newid i derfynau cyflymder 20mya diofyn yng Nghaerdydd wedi cynyddu tagfeydd ac amseroedd teithio i ddefnyddwyr ffyrdd gan gynnwys cwmnïau bysus, gan gynnwys Bws Caerdydd; ased sy'n eiddo i'r Cyngor.

6. Mae'r newid i derfynau cyflymder 20 mya diofyn yng Nghaerdydd wedi cynyddu amseroedd ymateb ar gyfer galwadau brys, gan gynnwys gwasanaethau brys a cherbydau sydd wedi torri/sy'n cael ei hadfer felly o bosibl mae'n rhoi'r cyhoedd mewn mwy o berygl o niwed.

7. Bydd y gostyngiad i derfynau cyflymder diofyn o 20 mya yn effeithio ar ddanfoniadau trwy arafu gyrwyr a gallai hyn gynyddu'r amser ar gyfer dosbarthu ac ychwanegu costau ymlaen i fusnesau a/neu gwsmeriaid.

8. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r pŵer i Awdurdodau Priffyrdd Lleol gyflwyno terfynau cyflymder rhan-amser lle mae awdurdod priffyrdd o'r farn bod eithriad i'r terfyn cyflymder diofyn o 20 mya yn briodol ar rai adegau ond nid ar adegau eraill. Nid yw'n ymddangos bod Cyngor Caerdydd wedi cymhwyso'r pŵer hwn i ffyrdd a ddylai fod wedi aros ar 30 mya.

9. Mae'r gost o gyflwyno terfynau cyflymder diofyn o 20 mya yng Nghymru wedi costio £32 miliwn. Gallai'r arian hwn fod wedi cael ei wario'n ddoethach ar wasanaethau cyhoeddus rheng flaen gan gynnwys ein GIG, ysgolion a llenwi ein tyllau yn y ffyrdd.

10. Nid yw'r newid i derfynau cyflymder diofyn 20 mya yn cyd-fynd â sylfaen polisi "cryfach, tecach, gwyrddach" y Cyngor.

**Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Gyngor Caerdydd, wrth weithredu fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol;**

1. I eithrio pob ffordd yng Nghaerdydd a oedd â therfynau cyflymder o 30 mya cyn cyflwyno Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 rhag aros ar 20 mya ac felly

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | dychwelyd y ffyrdd hyn yn ôl i derfynau cyflymder 30 mya.<br><br>2. I gynnal adolygiad brys i effeithiau andwyol y terfyn cyflymder diofyn o 20 mya a chyhoeddi canfyddiadau o fewn 3 mis i ddyddiad trafod y Cynnig hwn.<br><br>3. Pan fydd ffyrdd yng Nghaerdydd yn dychwelyd yn ôl i derfynau cyflymder 30 mya; i weithio gyda chymunedau lleol i sicrhau bod unrhyw geisiadau i leihau terfynau cyflymder ffyrdd i 20 mya yn cael eu gwneud ar sail fesul [1]achos. | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol